



Y Comisiwn Elusennau: Diwygiadau i'r Datganiad Blynyddol 2023-25

YMATEB GAN CGGC

1. [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#) (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.
2. Diolchwn i'r Comisiwn Elusennau am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

DIWYGIADAU A GYNIGIR I GWESTIYNAU AR GANLLAWIAU ARIANNOL

C1) A YDYCH YN CEFNOGI'R CYNNIG I GYNYDDU HYBLYGRWYDD Y DATGANIAD BLYNYDDOL, DRWY GANIATÁU I NI DDEWIS PEIDIO Â GOFYN RHAI CWESTIYNAU AMBELL I FLWYDDYN?

3. Ydyn, cyhyd â bod y meini prawf ar gyfer dewis y cwestiynau (neu beidio â'u dewis) yn cael eu dilyn a bod y broses yn dryloyw. Dylai hyn greu mwy o hyblygrwydd a, gobeithio, fersiwn llai trafferthus o'r Datganiad Blynyddol.
4. Rhaid rhoi canllawiau clir ar yr hyn sy'n newydd ym mhob fersiwn o'r Datganiad Blynyddol.

C2) A YW'R NEWIDIADAU RYDYM YN EU GWNEUD AR GWESTIYNAU YNGHYLCH CYLLID YN GOFYN AM YR WYBODAETH GYWIR AM ELUSENNAU AR SAIL YR WYBODAETH A DDARPERIR?

5. Hoffai CGGC weld cwestiwn i elusennau yng Nghymru a Lloegr sy'n gofyn faint o'u hincwm sy'n dod o Loegr a faint ohono sy'n dod o Gymru, ac yna cwestiwn perthnasol ar sut y rhennir y gwariant rhwng Cymru a Lloegr. Nid oes gennym wybodaeth ddibynadwy am hyn ar hyn o bryd.
6. Hoffai CGGC hefyd weld incwm a gwariant yn cael eu cyflwyno mewn mwy o fanylder ar y gofrestr. Mae 'incwm o weithgareddau elusennol' yn cynnwys cymaint

o wahanol fathau o incwm. Byddai hefyd yn ddefnyddiol gweld 'rhoddion a chymynroddion' yn cael eu rhannu yn ôl rhoddion, cymynroddion a grantiau.

7. Lle rydym yn ceisio defnyddio data i lywio sut rydym yn cefnogi elusennau yng Nghymru, byddai cael yr wybodaeth fwy manwl hon yn fuddiol iawn o ran arwain ein gwaith a chael gwir ddealltwriaeth o'r sector yng Nghymru.
8. Gallai a dylai'r cwestiynau ynghylch incwm o grantiau llywodraethol gydnabod y Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Gall elusennau sy'n cyflwyno gweithgareddau yng Nghymru gael incwm o Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

C3) A YW'R CWESTIYNAU AR GYLLID WEDI'U GEIRIO MEWN Ffordd SY'N EU GWNEUD YN EGLUR A HAWDD EU DEALL?

9. Gallai'r cwestiynau ar roddion unigol fod yn fwy clir. Nid yw cael 25% o'r incwm o 100 o roddwyr unigol (er enghraifft) yn beryglus iawn, ond byddai ei gael drwy un rhodd o un unigolyn yn fater gwahanol. Nid yw'r cwestiwn hwn yn caniatáu ar gyfer gwahaniaethau fel hyn. Mae ychydig o eglurhad ar hyn yn yr wybodaeth ategol, ond ni fydd pawb yn darllen yr wybodaeth hon.
10. Byddem yn petruso cyn defnyddio'r gair 'ymddiriedolaeth' ar ei ben ei hun. Byddai 'Ymddiriedolaethau, sefydliadau a chyrff llunio grantiau' (e.e. nid yw'r Loteri yn ymddiriedolaeth nac yn Sefydliad) yn cynnwys pethau o'r fath yn fwy effeithiol.
11. Ni ddylai 'Cyfanswm y grantiau a roddwyd i unigolion ac elusennau eraill' fod yn yr un adran â 'thalu ymddiriedolwyr' – mae hyn yn ddryslyd ac yn awgrymu bod y Comisiwn yn gofyn ynghylch cyflwyno grantiau i ymddiriedolwyr.

C4) A YW EIN GWYBODAETH ATEGOL A CHANLLAWIAU DRAFFT AR Y CWESTIYNAU CYLLID YN DDIGONOL I EGLURO SUT I ATEB Y CWESTIYNAU HYN?

12. Gelwir Cyllid Treftadaeth y Loteri, a ddefnyddiwyd fel enghraifft yn yr eirfa fel 'Un ffrwd incwm', yn Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol bellach.
13. Yn y cwestiwn ynghylch canran yr incwm o ffrydiau penodol, mae'r nodiadau canllaw yn nodi nad yw 70.4% yn cael ei ystyried yn fwy na 70% yn yr achos hwn ac felly dylai pobl ateb 'na'. Gallai hyn beri dryswch. Efallai y byddai ei ail-eirio i ddweud '70% ac uwch' yn well ac yn fwy pendant i'r rheini a allai fod ar y ffin honno.
14. Mae tri thudalen o ganllawiau braidd yn ormodol, ac yn awgrymu y gallai'r adran hon fod yn fyrrach.

C5) A ALLECH CHI ATEB Y CWESTIYNAU HYN GAN DDEFNYDDIO GWYBODAETH RYDYCH EISOES YN EI CHASGLU AR GYLLID EICH ELUSENNAU?

15. Gallai CGGC. Dylai'r rhan fwyaf o elusennau allu ateb y cwestiynau hyn, ond os na allant, yna mae'n bwysig eu bod yn dechrau cofnodi'r wybodaeth hon.

C6) A OES GENNYCH CHI BRYDERON YNGHYLCH YR AMSER Y BYDDAI'N EI GYMRYD I ATEB Y CWESTIYNAU AR DALIADAU YMDDIRIEDOLWYR?

16. Os yw elusennau yn monitro eu gwariant yn briodol, ni ddylai hyn fod yn broblem.

INCWM A GWEITHREDIADAU Y TU ALLAN I GYMRU A LLOEGR

C7) A YW'R CWESTIYNAU NEWYDD YNGHYLCH INCWM TRAMOR A CHYTUNDEBAU Â PHARTNERIAID TRAMOR YN EGLUR AC YN HAWDD EU DEALL A'U HATEB, GAN DDEFNYDDIO'R WYBODAETH ATEGOL YN ÔL YR ANGEN?

17. Mae 'cludwr arian' wedi'i restru ddwywaith yn y dewisiadau ateb ar gyfer sut y derbyniwyd incwm o dramor.

18. Beth sy'n cael ei ystyried yn 'systemau trosglwyddo arian anffurfiol'? Dylid diwygio'r cwestiwn hwn a'i wneud yn fwy eglur.

C8) A OES GENNYCH UNRHYW BRYDERON YNGHYLCH YR AMSER Y BYDDAI'N EI GYMRYD I ATEB Y CWESTIYNAU AR Y Ffordd Y DERBYNIWYD INCWM TRAMOR GAN EICH ELUSEN?

19. Ni ddylai hyn fod yn broblem i elusennau sy'n rheoli eu cyllid yn effeithiol.

GWEITHREDIADAU A STRWYTHUR ELUSEN

C9) A YDYCH CHI'N CREDU Y DYLAI'R COMISIWN GASGLU DATA AR Y SAFLE LLE MAE'R ELUSEN YN GWEITHREDU?

20. Ydyn. Byddai hyn yn ddefnyddiol iawn o safbwynt polisi. Bydd yn helpu i nodi pa elusennau sy'n gweithio ar draws y ffin a pha rai sydd yng Nghymru yn unig. Bydd yn helpu i nodi bylchau a hefyd dyblygu mewn ardaloedd lle mae llawer o elusennau yn gweithredu.

21. Gallai'r cwestiwn hwn fod ychydig yn feichus i elusennau â safleoedd lluosog, ond dylai elusen sy'n cael ei llywodraethu'n dda gael yr wybodaeth honno wrth law. Byddai'n destun pryder pe na bai elusen yn gallu darparu gwybodaeth yn gyflym am ble y maen nhw'n gweithredu.

22. Fodd bynnag, gyda'r cynnydd mewn gweithio o bell, efallai y bydd angen i ni ystyried beth a olygir wrth 'lleoliad'. Gallai rhai elusennau fod yn Lloegr yn ffisegol, er enghraifft, ond yn cynnig gwasanaethau (hyfforddiant) o bell yng Nghymru. Nid yw cyfeiriadau ffisegol o reidrwydd yn dangos ble mae'r elusen yn gweithredu.

C10) NODWCH PA MOR YMARFEROL FYDDAI I CHI DDARPARU GWYBODAETH AM YR HOLL LEOLIADAU Y MAE EICH ELUSEN YN GWEITHREDU. COFIWCH GYNNWYS AWGRYMIADAU AR SUT I ROI HYN AR WAITH PE BAI'N CAEL EI GYNNWYS

23. Rydym yn elusen genedlaethol yng Nghymru, felly byddai angen yr opsiwn arnom ni i roi tic ar gyfer 'pob awdurdod lleol'. Mae gofyn am godau post yn swnio'n eithaf beichus, ac mae problemau posibl yma o ran diogelu neu ddiogelu data. Os dilynir y llwybr hwn, rydym yn cytuno mai dim ond llythrennau cyntaf y cod post y dylid gofyn amdano (e.e. CF) yn hytrach na'r manylion llawn. Neu, gallai'r Comisiwn ofyn i elusennau roi tic yn erbyn yr awdurdodau lleol y maen nhw'n gweithredu o'u mewn, gan gynnwys opsiwn 'pob un/cenedlaethol'.

C11) A YW'R NEWIDIADAU RYDYM YN EU GWNEUD AR GWESTIYNAU YNGHYLCH GWEITHREDIADAU A STRWYTHUR ELUSEN YN GOFYN AM YR WYBODAETH GYWRIR AM ELUSENNAU AR SAIL YR WYBODAETH A DDARPERIR?

24. Fel y nodwyd, mae angen rhoi ystyriaeth i'r diffiniad o 'leoliad'.

C12) A YDYCH CHI'N CREDU BOD Y CWESTIYNAU YNGHYLCH GWEITHREDIADAU A STRWYTHUR ELUSEN YN EGLUR AC YN HAWDD EU DEALL A'U HATEB?

25. Ydyn

C13) A YW EIN GWYBODAETH ATEGOL A CHANLLAWIAU DRAFFT AR Y CWESTIYNAU AR WEITHREDIADAU A STRWYTHUR ELUSEN, GAN GYNNWYS YR EIRFA, YN DDIGONOL I EGLURO SUT I ATEB Y CWESTIYNAU HYN?

24. Ydyn.

C14) NODWCH UNRHYW SYLWADAU I'N HELPU NI I DDEALL HYN YMHELLACH. YN BENODOL, RYDYM YN AWYDDUS I DDEALL A YW'R DIFFINIAD O 'CYFLWYNO' ('HOSTED') YN YR EIRFA YN DDIGON EGLUR.

25. Ydy.

C15) A ALLECH CHI ATEB Y CWESTIYNAU HYN GAN DDEFNYDDIO'R WYBODAETH RYDYCH YN EI CHASGLU AR HYN O BRYD AM WEITHREDIADAU A STRWYTHUR

26. Gallem.

DIWYGIADAU A GYNIGIR I GWESTIYNAU AR GYFLOGEION A GWIRFODDOLWYR

C16) A YW'R NEWIDIADAU RYDYM YN EU GWNEUD AR GWESTIYNAU YNGHYLCH CYFLOGEION A GWIRFODDOLWYR YN GOFYN AM YR WYBODAETH GYWIR AM YR ELUSENNAU AR SAIL YR WYBODAETH A DDARPERIR?

27. O ran y cwestiynau ar gyflog elusen: Gallai hyn godi rhai problemau o ran enw da elusennau, oherwydd gallai elfennau gwrthwynebus o'r cyfryngau gael gafael ar yr wybodaeth, ei defnyddio allan o'r cyd-destun a'i defnyddio i bardduo enw'r elusen yn gyhoeddus. Mae tryloywder yn bwysig, ond mae angen i'r Comisiwn fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael.
28. Nid oes newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r cwestiwn ar nifer y gwirfoddolwyr, ond nid ydym yn credu bod y cwestiwn presennol yn gofyn am yr wybodaeth gywir. Gweler ein hawgrymiadau o dan gwestiwn 17.

C17) A YW'R CWESTIYNAU NEWYDD YNGHYLCH CYFLOGEION A GWIRFODDOLWYR YN EGLUR AC YN HAWDD EU DEALL A'U HATEB?

29. Nid ydym yn credu bod y cwestiwn presennol ar nifer y gwirfoddolwyr (*Faint o wirfoddolwyr o'r DU, heb gynnwys ymddiriedolwyr, oedd gan eich elusen yn ystod y cyfnod ariannol sy'n berthnasol i'r datganiad hwn?*) yn gofyn am yr wybodaeth gywir. Awgrymwn fod y geiriad canlynol yn cael ei gynnwys: *'Faint o wirfoddolwyr gweithredol yn y DU, heb gynnwys ymddiriedolwyr, oedd gan eich elusen yn ystod y cyfnod ariannol sy'n berthnasol i'r datganiad hwn?'*
30. Mae'n bosibl camddechongli'r cwestiwn presennol a gallai elusennau ymateb gyda chyfanswm nifer y gwirfoddolwyr ar eu llyfrau - gan gynnwys y rheini nad ydynt wedi gwirfoddoli yn ystod y cyfnod ariannol sy'n berthnasol i'r datganiad hwn (neu'r rhai cyfnodau diwethaf) ac nad ydynt yn debygol o fod ar gael i wirfoddoli yn y dyfodol. Gan hynny, nid yw nifer cyfanredol y gwirfoddolwyr y mae elusen wedi ymhél â nhw'n hanesyddol ac efallai â'u manylion o hyd yn fesuriad defnyddiol. Awgrymwn y dylid cynnwys y gair *'gweithredol'* er mwyn cael data mwy cywir ar yr adnoddau dynol gwirfoddol sydd ar gael gan bob elusen ar hyn o bryd. Credwn y byddai'r data hwn yn ddangosydd gwell o wydnwch mudiad, yn unol â'r nodau a osodwyd gan y Comisiwn o dan adran 6 (*'Bydd monitro tueddiadau yma yn helpu'r Comisiwn i ddeall pan na fydd elusen, o bosibl, yn gallu cynnal gwasanaeth neu safonau llywodraethu a byddai'n helpu i nodi lle gallai risgiau lleol neu risgiau sy'n*

benodol i'r sector godi.)

31. Rydym yn cefnogi newid 'y DU' i 'yn y DU' er mwyn osgoi camddehongliad, oherwydd nid ydym yn credu bod y Comisiwn eisiau cael gwybodaeth am wirfoddolwyr sy'n wladolion o'r DU yn unig. Yn hytrach, tybir mai gwybodaeth am unrhyw wladolyn sy'n byw yn y DU a wirfoddolodd i'r elusen dan sylw yn ystod y cyfnod ariannol sydd ei hangen.
32. Awgrymwn ymhellach y dylid cyflwyno cwestiwn ychwanegol: 'Faint o wirfoddolwyr tramor, heb gynnwys ymddiriedolwyr, sydd wedi cyfrannu'n weithredol at eich prosiectau yn y DU yn ystod y cyfnod ariannol sy'n ymwneud â'r datganiad hwn?'
33. Nodwn fod y Comisiwn yn gofyn am gyflogeion tramor ac yn y DU ac yn egluro bod angen hyn er mwyn '*nodi elusennau â chyflogeion tramor a'u cynorthwyo i sicrhau bod dyletswyddau perthnasol yn cael eu bodloni*'. Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn cydnabod bod '*Nifer cynaliadwy o wirfoddolwyr yn hynod bwysig i'r sector o ran gallu parhau â'i waith, nawr ac yn y dyfodol. Bydd monitro tueddiadau yma yn helpu'r Comisiwn i ddeall pan na fydd elusen, o bosibl, yn gallu cynnal gwasanaeth neu safonau llywodraethu a byddai'n helpu i nodi lle gallai risgiau lleol neu risgiau sy'n benodol i'r sector godi.*' Anogwn y Comisiwn i ystyried cyfraniadau rhithwir gwirfoddolwyr tramor at brosiectau yn y DU. Mewn byd fwyfwy rhyng-gysylltiedig, gyda chyfleoedd gwirfoddoli digidol a micro yn dod yn fwy a mwy poblogaidd dros y pandemig, mae gwirfoddoli ar draws ffiniau ar-lein yn haws nag erioed a dylid ei ystyried wrth asesu tueddiadau, risgiau a chynaliadwyedd gweithrediadau elusennau.
34. Nid yw geiriad ein cwestiwn ychwanegol yn cynnwys prosiectau tramor ac yn canolbwyntio ar effaith gwirfoddolwyr rhyngwladol ar weithgareddau elusennol yn y DU, sy'n unol â chwmpas gweithredu'r Comisiwn.

C18) A YW EIN GWYBODAETH ATEGOL A CHANLLAWIAU DRAFFT YNGHYLCH Y CWESTIYNAU AR GYFLOGEION A GWIRFODDOLWYR YN DDIGONOL I EGLURO SUT I ATEB Y CWESTIYNAU HYN?

35. Bydd ychwanegu'r geiriad a awgrymwyd gennym yng nghwestiwn 16 yn diffinio paramedrau'r cwestiynau ar wirfoddolwyr yn glir ac yn cael gwared ar yr angen am ganllawiau pellach.
36. Os bydd y Comisiwn yn derbyn ein hargymhelliad i gynnwys y termau 'gweithredol' ac 'yn y DU' yn y cwestiwn presennol, ynghyd â chynnwys cwestiwn ar wahân ar wirfoddolwyr tramor rhithwir, nodwn hefyd y byddai'n fuddiol cael eglurhad pellach o dan adran 8.2 o '*gwestiwn ychwanegol mewn ymateb i newid allanol mawr*' lle y mae cwmprestr yn cynnwys '*nifer y gwirfoddolwyr*' fel yr unig opsiwn. Awgrymwn y dylai'r Comisiwn ddarparu canllawiau ychwanegol yn Atodiad 4 sy'n nodi mai nod yr opsiwn cwmprestr hwn yw ceisio cofnodi'r '*holl wirfoddolwyr gweithredol yn y DU a thramor sy'n cyfrannu at brosiectau yn y DU, heb gynnwys ymddiriedolwyr, yn ystod y cyfnod ariannol sy'n berthnasol i'r datganiad hwn*'.

C19) A ALLECH CHI ATEB Y CWESTIYNAU HYN GAN DDEFNYDDIO'R WYBODAETH RYDYCH CHI'N EI CHASGLU AR HYN O BRYD AR EICH CYFLOGEION A GWIRFODDOLWYR?

37. Gallwn. Ond mae'r wybodaeth hon eisoes wedi'i chynnwys yn y cyfrifon statudol rydym yn eu lanlwytho i wefan y Comisiwn Elusennau, felly yn y bôn, mae gwaith yn cael ei ddyblygu.

38. Nid oes gan CGGC unrhyw wirfoddolwyr, dim ond cyflogeion.

LLYWODRAETHIANT RISG, DIGWYDDEDD A DIOGELU

C20) A YW'R NEWIDIADAU RYDYM YN EU GWNEUD I GWESTIYNAU YNGHYLCH LLYWODRAETHIANT RISG, DIGWYDDEDD A DIOGELU YN EGLUR AC YN GYMESUR, AC A YDYNT YN GOFYN AM YR WYBODAETH GWIR?

39. Mae CGGC yn cytuno y bydd yn ddefnyddiol gofyn cwestiwn ynghylch polisiau a gweithdrefnau'r elusen. Rydym hefyd yn cytuno y dylai'r Comisiwn ofyn a yw'r elusen yn gweithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl. Awgrymwn y byddai'n ddefnyddiol gofyn a oes gan yr elusen bolisi diogelu.

40. Mae CGGC yn aelod o grŵp llywio'r Cod Llywodraethu i Elusennau. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai cwestiwn arall yn gallu cael ei ychwanegu sy'n gofyn a yw'r elusen yn dilyn unrhyw god ymarfer da gwirfoddol. Gallai hwn fod yn gwestiwn syml gydag ateb Ie/Na.

C21) A YW EIN GWYBODAETH ATEGOL A CHANLLAWIAU DRAFFT AR LYWODRAETHIANT RISG, DIGWYDDEDD A DIOGELU YN DDIGONOL I EGLURO SUT I ATEB Y CWESTIYNAU HYN?

41. Ydyn.

C22) A ALLECH CHI ATEB Y CWESTIYNAU HYN GAN DDEFNYDDIO GWYBODAETH BERTHNASOL RYDYCH YN EI CHASGLU AR HYN O BRYD?

42. Gallwn

C23) A YDYCH O BLAID CYNNWYS CWESTIWN YCHWANEGOL I'W DDEFNYDDIO I YMATEB I NEWID ALLANOL MAWR?

43. Byddai hwn yn gwestiwn defnyddiol iawn. Byddai'n helpu i fynd ati'n rhagweithiol i gasglu data ar effaith newidiadau allanol mawr ar y sector gyfan ac yn helpu i nodi

tueddiadau. Bydd hyn yn helpu i gael mwy o gymorth wedi'i dargedu ar gyfer y sector.

CWESTIYNAU CRYNO

C24) A YDYCH CHI'N CREDU BOD Y DULL O FYND I'R AFAEL Â'R DATGANIAD BLYNYDDOL NEWYDD YN GYMESUR?

44. Byddem yn cytuno ei fod yn gymesur i raddau helaeth, ond fel y nodwyd ynghynt, mae cwestiynau ynghylch lleoliadau a chodau post a allai fod yn eithaf beichus i rai mudiadau.
45. Dylai'r Comisiwn gofio y gall fod angen cymorth ychwanegol ar elusennau llai i lenwi'r Datganiad Blynyddol, felly rhaid i'r Datganiad barhau i fod yn gymesur er mwyn osgoi rhoi rhwystrau diangen yn y ffordd.

C25) A OES GENNYCH CHI UNRHYW SYLWADAU AR EIN HASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB?

46. Nid oes gennym sylwadau penodol ar hyn.

C26) RHOWCH FWY O DYSTIOLAETH NEU WYBODAETH I NI Y GALLWN EI HYSTYRIED, YN ENWEDIG UNRHYW BRYDERON YNGHYLCH PREIFATRWYDD DATA.

47. Fel y nodwyd ynghynt, gallai pryderon godi ynghylch casglu codau post pobl sy'n ymwneud â phreifatrwydd data.
48. Bydd CGGC yn fwy na bodlon trafod yr atebion hyn mewn mwy o fanylder gyda'r Comisiwn Elusennau, yn ôl y gofyn.

Ar ran Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gan:

- David Cook, Swyddog Polisi, dcook@wcva.cymru
- Mair Rigby, Rheolwr Llywodraethu a Diogelu, mrigby@wcva.cymru
- Natalie Zhivkova, Swyddog Polisi Gwirfoddoli, nzhivkova@wcva.cymru
- Alison Pritchard, Rheolwr Cyllid Cynaliadwy, apritchard@wcva.cymru

Awst 2022